No.

# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), N.C. Thomas ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 456 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 457 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd P. Drake.

## 458 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

## 459 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 460 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST 2022 (CYF) –

Cyflwynwyd cyfeiriad y Cabinet ar 6ed Hydref 2022 gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, a ddywedodd wrth y Pwyllgor bod:

- Y sefyllfa'n dal yn 'gyfnewidiol' iawn a bod y rhaglen bresennol oedd wedi'i chymeradwyo yn werth cyfanswm o £119m, a oedd yn cynnwys cynlluniau oedd wedi llithro o 2021/22 a'r holl gymeradwyaethau amrywiol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn hyd at yr adeg honno. Yr alldro a ragamcanwyd ar hyn o bryd oedd £93.5m, gyda'r gwariant hyd at Awst 2022 yn gyfanswm o tua £13.4m.
- Byddai pwysau chwyddiant sylweddol a'r hinsawdd economaidd gyffredinol ac effeithiau o Wcráin, ac ati yn dal i effeithio ar y rhaglen.
- Roedd hyn yn ei dro wedi golygu llawer mwy o drafod gyda chontractwyr ar dendrau prosiectau cyfalaf, a lle bo angen ail-dendro a / neu 'ail-strwythuro' prosiectau er mwyn gwneud cynlluniau'n 'addas' i'w cynllun ariannol gwreiddiol. Roedd hyn wedi arwain at oedi cynlluniau a pheth 'llithro' yn y Rhaglen Gyfalaf. Oherwydd materion ar yr ochr gyflenwi (yn rhan o'r heriau economaidd cyffredinol sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd) roedd amseroedd disgwyl sylweddol o hyd ar gyfer deunyddiau.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi ceisiadau Awdurdod Dirprwyedig cymeradwy, defnydd Pwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf, gyda manylion gwahanol bethau oedd wedi llithro h.y., Rhaglen Gwella Tai a'r Cynllun Amnewid Cerbydau.

Yn dilyn yr adroddiad, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y canlynol:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Franks ar y llithro sylweddol ar wahanol feysydd allweddol o'r Rhaglen Gyfalaf, eglurwyd bod hyn yn ganlyniad i raddau helaeth i lithro o'r flwyddyn ariannol flaenorol a bod swyddogion y Cyngor yn gwneud eu gorau i gyflawni'r rhain. O ran ei ymholiad ar y defnydd o 'Rannau Cyffredin' yn yr adroddiad, mae'n debyg mai cyfeirio at ardaloedd cymunedol roedd hyn, ond byddai ymholiadau pellach yn cael eu gwneud.
- Ychwanegodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau bod Awdurdodau Lleol eraill Cymru hefyd yn wynebu heriau tebyg o ran cyflawni eu rhaglenni cyfalaf, a'r angen i ail-dendro ac ail-broffilio er mwyn mynd i'r afael â chostau cynyddol mewn deunyddiau, ac ati, a phrosesau caffael estynedig. Roedd llithriadau gydag ysgolion a thai oherwydd yr angen i wneud gwaith sylweddol yn ystod gwyliau'r haf a gwrthod neu oedi ceisiadau cynllunio.
- O ran ymholiadau a phryderon y Cynghorydd Dr Johnson ynghylch gwahanol faterion cost a llithro, megis y Cyfrif Refeniw Tai, Ysgol y Deri, Cartref Plant ym Mhenarth a'r ad-daliad Goodshed i Lywodraeth Cymru, cafodd y rhain eu trafod gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a soniodd am ddarpariaeth grant ychwanegol Llywodraeth Cymru (LlC) i ysgolion, costau addasiadau arbennig ar gyfer y Cartref Plant gan gynnwys ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac ad-daliad Goodsheds yn gysylltiedig ag ad-daliad hwyr y cytunwyd arno. Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid a'r Arweinydd Gweithredol y gallai fod pwynt tyngedfennol lle byddai angen i'r Cyngor feddwl o ddifrif am fforddiadwyedd cynlluniau, ond roedd angen cydbwyso hyn ag anghenion h.y. addysg plant, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru ac y gellid dangos bod costau o'r fath yn gymesur â'r hyn a ddisgwylir wrth ddarparu ysgolion eraill ledled Cymru.

- O ran sylwadau'r Cynghorydd Carroll ar yr angen i ail-ganolbwyntio ar flaenoriaethu a chyflwyno prosiectau drwy adolygu’r gwaith o osod cyllidebau a phrosesau cysylltiedig yn sgil y llithro, eglurwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Uwch Dîm Arwain a gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â gosod Rhaglen Gyfalaf realistig ar gyfer 2023/24 fyddai’n fwy tebygol o allu cael ei chyflawni, gydag adroddiadau dilynol yn dathlu cwblhau cynlluniau a'r buddion a ddarparwyd ganddynt i'r gymuned yn hytrach na thrafodaeth chwarterol am yr hyn oedd wedi llithro a'r hyn oedd angen ei ailbroffilio. O ran ei ymholiad am y tanwariant ar Gyrtiau Tennis Romilly, byddai ymholiadau’n cael eu gwneud ac ymateb yn cael ei ddarparu.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau oedd wedi eu cynnwys, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi’r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

(2) Nodi’r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) Nodi’r defnydd o Bwerau Brys fel y nodir yn yr Atodiad sydd ynghlwm â'r adroddiad.

(4) Nodi’r newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai’r blynyddoedd i ddod:

- Ysgol Gynradd Saint-y-brid - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £11k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad o gyllideb refeniw’r Ysgol.
- Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Band B – Ail-broffilio a chynyddu'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn unol â’r cais yn y tabl ym mharagraff 2.15 yr adroddiad.
- Ysgol Gynradd y Bont-faen - Cyfuno cynllun Cam 2 Adnewyddu To Fflat Ysgol Gynradd y Bont-faen â chynllun Cam 3 Adnewyddu To Fflat Ysgol Gynradd y Bont Faen/y cynllun atgyweirio Ffenestri a Chladin yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Cynllun Awyru Sant Richard Gwyn – Trosglwyddo £2k o'r cynllun gwella Awyru mewn Lleoliadau Addysg i gynllun Awyru Sant Richard Gwyn.
- Ysgol Gynradd Llanfair Carbon Sero – Dwyn ymlaen £240k i Raglen Gyfalaf 2023/24 er mwyn adlewyrchu'r proffil diwygiedig o gyflawni'r cynllun.
- Cyrtiau Tennis Romilly – Lleihau'r gyllideb hon £8k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn unol â gwariant grant gwirioneddol.
- Cynllun Gwella Priffyrdd y Gwasanaethau Cymdogaeth – Cyfuno Cynllun Gwella Priffyrdd y Gwasanaethau Cymdogaeth â’r cynllun Ail-wynebu Priffyrdd yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Grant Chwaraeon Cymru - Trosglwyddo £24k o gynllun Canolfan Gymunedol a Hamdden y Gwasanaethau Cymdogaeth i gynllun Grant Chwaraeon Cymru yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

- Adnewyddu Pier Penarth – Trosglwyddo £20k o'r Cyfleusterau a Seilwaith Arfordirol gan gynnwys Cynllun Gwaith Strwythurol y Pier i gynllun Adnewyddu Pier Penarth yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Rhaglen Gwella Tai 2022/23 – Adnewyddiad 7 St Pauls Avenue - Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, gyda chyllideb o £315k i'w hariannu gan drosglwyddiad mewnol o £177k o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) (£124k - Gwaith Mewnol y CRT a £53k - Gwaith Brys y CRT) a Chyfraniad £138k o Refeniw'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwaith Mewnol y CRT - Dwyn ymlaen £830k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adeiladau Newydd y CRT - Dwyn ymlaen £6.344m i Raglen Gyfalaf 2023/24
- Gwaith Allanol y CRT - Dwyn ymlaen £1.775m i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cynlluniau Unigol - Dwyn ymlaen £2.1m i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Rhannau Cyffredin - Dwyn ymlaen £2m i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Gwaith Amgylcheddol - Dwyn ymlaen £1.2m i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Effeithlonrwydd Ynni - Dwyn ymlaen £870k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Rhaglen Amnewid Cerbydau – Dwyn ymlaen £1.384m i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ystâd Fasnachu'r Iwerydd – Parcio Fflyd Gweithrediadau – Dwyn ymlaen £250k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Newydd - Dwyn ymlaen £1.455m i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ad-daliad Goodshed i Lywodraeth Cymru - Cynyddu'r cynllun presennol yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 £6k, i'w ariannu gan dderbyniadau cyfalaf.
- Rhaglen Waith Cosmeston - Dwyn ymlaen £120k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- APRhA Parciau Gwledig – Dwyn ymlaen £200k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- BSC2 - Dwyn ymlaen £248k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl/Grantiau Cyfleuster Ychwanegol - Ailbroffilio'r gyllideb fel y nodir ym mharagraff 2.39 yr adroddiad.
- Parciau Gwledig fel Cysylltwyr Cymdeithasol ac Economaidd – Cynyddu'r cynllun £10k, i'w ariannu gan gyfraniad refeniw o gyllideb y Parciau Gwledig.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

461 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2023/24 A CHYNIGION CYCHWYNNOL Y RHAGLEN GYFALAF 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cyflwynwyd cyfeiriad y Cabinet ar 6 Hydref 2022 fel y'i ceir o fewn yr agenda gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, a ddywedodd wrth y Pwyllgor ei fod yn cynnwys Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2023/24, Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol 2023/24 i 2027/28 a Chynigion Cyfalaf. Roedd yr adroddiad hwn yn dangos bod y Cyngor yn ystyried yr heriau ariannol y mae bellach yn eu hwynebu a fforddiadwyedd cynlluniau cyfalaf ochr yn ochr â'r gyllideb refeniw.

Cyfanswm gwerth y ceisiadau cyfalaf a dderbyniwyd oedd swm gros o £16.718m (£14.533m net) yn 2023/24 a £109.968m (£41.723m net) dros y 5 mlynedd. Gan nad yw'r cynigon wedi eu gwerthuso eto gan y bwrdd Mewnwelediad Strategol, ac nad yw'r setliad ar gyfer 2022/23 wedi'i gadarnhau eto, cynigiwyd, ar hyn o bryd, oherwydd yr ansicrwydd yn lefel yr arian a geir, na fydd unrhyw gynlluniau'n cael eu cymeradwyo i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ac y bydd asesiad pellach yn cael ei gynnal gan Weithgor y Gyllideb pan fydd lefel yr arian yn hysbys ac ar ôl i ymgynghoriad gael ei gynnal. Roedd hyn yn cynnwys cynigion / cynlluniau fel y cynllun cyfalaf gwerth £137.456m ar gyfer y Rhaglen Gwella Tai.

Ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru, byddai'r Cabinet yn gwneud ei gynigion terfynol yn ystod mis Chwefror 2023, a fyddai wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo'n derfynol cyn 11 Mawrth y flwyddyn honno.

Yn dilyn yr adroddiad, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y canlynol:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr Johnson at y gwariant cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y Rhaglen Gwella Tai a gofynnodd a fyddai hyn yn cael ei ystyried yn rhan o Gyfarfod Arbennig y Cyngor Llawn ym mis Ionawr gan gynnwys cynifer o fanylion am y maes gwariant allweddol hwn â phosib, yn ogystal â gwersi a ddysgwyd dros y 5 mlynedd diwethaf. Eglurwyd y byddai'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â'r elfen gosod rhent, oherwydd gofyniad ar y Cyngor i roi deufis o rybudd cyn i'r gyfradd rent wedi'i diweddaru gael ei hanfon at denantiaid. Ar bwynt arall y Cynghorydd ynghylch dysgu gan lithriadau blaenorol ac anawsterau o ran ceisiadau / cynlluniau cyfalaf, er mwyn darparu strategaeth a rhaglen mwy realistig a chyraeddadwy wrth symud ymlaen, ar ôl mynd trwy'r gwahanol rowndiau o graffu ar y cyd â'r Bwrdd Mewnwelediad a'r Gweithgor Cyllideb, disgwylid y byddai proffiliau rhai o'r cynlluniau cyfalaf hyn ychydig yn wahanol ir hyn roedden nhw pan ddaeth y rhain yn ôl ym mis Ionawr.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Haines am Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor ac a oedd yn benthyg i neu fenthyg gan Awdurdodau Lleol eraill, eglurwyd na fyddai'r Cyngor o reidrwydd yn benthyg gan gynghorau eraill ar gyfer ei Raglen Gyfalaf ond gallai benthyca rhwng cynghorau greu llog uwch ac roedd benthyciadau o'r fath yn cael eu gwarantu gan Lywodraeth y DU.
- O ran ymholiad yr Is-gadeirydd am hyfywedd hirdymor benthyca a chyllid mewn meysydd hanfodol fel y Cyfrif Refeniw Tai, eglurwyd, bod meysydd fel y Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu cefnogi gan gynllun busnes 30 mlynedd yn ogystal â thrwy fodelu parhaus yn seiliedig ar amrywiol senarios gosod rhent. Fodd bynnag, byddai mwy o her o ran yr hyn y gellid ei gyflawni, fel y cyfeiriwyd ato yn gynt yn y cyfarfod.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Carroll am Flaenoriaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei nodi ei hun fel blaenoriaeth, roedd y fframwaith wedi cael ei bwyso a'i fesur, gyda'r angen i ystyried y Cynllun Corfforaethol fel ei flaenoriaeth ei hun mewn perthynas â'r Rhaglen Gyflawni Flynyddol a gosod cyllidebau. O ran ei ail bwynt mewn perthynas â'r strategaeth fuddsoddi a defnyddio cronfeydd y farchnad arian, byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ar hyn yn adroddiad hanner blwyddyn y

- Trysorlys yr oedd disgwyl ei gyflwyno i'r Cabinet. Roedd cronfeydd o'r fath yn gwneud rywfaint yn well na dim ond rhoi arian yn y Swyddfa Rheoli Dyledion ac roeddent yn offerynnau ariannol hylifol iawn hefyd.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Loveluck-Edward ynglŷn â'r amserlen ar arolygon cyflwr adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, dywedodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau bod hyn yn cael ei ystyried a'i weithredu yn rhan o'r Strategaeth Fuddsoddi Dysgu a Sgiliau. O ran yr ymholiad ynghylch natur 'benthyciadau meddal' i sefydliadau neu grwpiau lle byddai'r cyhoedd yn elwa o'r gwaith a wnaed gan y rhain, roedd benthyciadau o'r fath yn cael eu rhoi ar raddfa lai na chyfradd y farchnad.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at 'wall teipograffig' ym mharagraff 3.14, tudalen 19 o'r Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2023/24, fyddai'n cael ei ddiwygio.

Ar ôl ystyried y cyfeiriadau i gyd a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Nodi'r Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol ar gyfer 2023/24 i 2027/28 a'r Ceisiadau Cyfalaf, yn amodol ar ddiwygio'r gwall teipograffig ym mharagraff 3.14 ar dudalen 19 y Strategaeth Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2023/24.

<u>Y rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

462 STRATEGAETH ARIANNOL 2023/24 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG ADNEWYDDU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Gabinet 6ed Hydref 2022 gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, a esboniodd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad yn nodi Strategaeth Ariannol y Cyngor a'r egwyddorion y byddai'n eu dilyn wrth ddatblygu a gwireddu'r gyllideb. Prif amcanion y Strategaeth Ariannol oedd cyflawni Cynllun Corfforaethol ac amcanion y Cyngor, yn ogystal â sicrhau yn ystod y cyfnod heriol hwn y cynhelir gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed. Roedd gweddill yr adroddiad yn ymwneud ag adnewyddu'r costau a'r rhagdybiaethau ariannol dros y tymor canolig. Roedd adnoddau a lefelau ariannu'n cael eu hadolygu'n barhaus, gyda'r pwysau costau y rhagwelir y bydd yn £28.190m yn rhan fawr o'r bwlch cyllid o £38.108m. Roedd y ffigyrau hyn yn cyflwyno 'sefyllfa waethaf bosib' i'r Cyngor, er ei bod yn ymddangos yn debygol na fyddai'r lefelau uchel presennol o chwyddiant yn gostwng yn sylweddol am gryn amser. Yn rhan o brosesau adolygu mewnol a chraffu'r Cyngor, byddai'n edrych ar y costau hyn a'u herio er mwyn ceisio eu lleihau a chael eu hamsugno lle bynnag sy'n bosib. Cafodd pwysau cost eu rhannu yn ôl buddsoddiadau, chwyddiant, demograffeg a phwysau cyffredinol, gyda'r dyfarniadau cyflog diweddar a chost cyfleustodau yn brif yrwyr chwyddiant, er bod llawer o'r pwysau o natur allanol, 'wedi'i fewnforio'. Byddai'r categoreiddio heriau ariannol y Cyngor fel hyn yn help o ran eglurder a datrys.

O ran setliad ariannol Llywodraeth Cymru (LlC) i Awdurdodau Lleol, ni fyddai hyn yn hysbys tan fis Rhagfyr, er y byddai datganiad cyllideb Llywodraeth y Deyrnas

Unedig oedd ar fin digwydd yn rhoi rhywfaint o eglurder ar sut olwg fyddai ar y cyllid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol, gyda'r posibilrwydd am doriadau gwariant yn 2025/26. Byddai her sylweddol hefyd i gydbwyso'r gyllideb ac roedd hi'n ymddangos yn annhebygol iawn y byddai'r pwysau costau a'r bwlch ariannu yn gostwng yn sylweddol, yn wahanol i adroddiadau ariannol eraill ar adegau tebyg mewn blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd hefyd, ers ysgrifennu'r adroddiad, bod y sefyllfa ariannol yn symud yn barhaus, ac y byddai'r sefyllfa ddiweddaraf yn cael ei adrodd ym mis Ionawr.

Roedd ffenestr gymharol fer ar gyfer yr ymgynghoriad ar y gyllideb (Ionawr i Chwefror 2023), oherwydd nad oedd setliad LlC yn wybyddus tan fis Rhagfyr a bod angen eglurder ar yr arbedion a'r gostyngiadau cysylltiedig.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Goodjohn ynghylch faint roedd yr adroddiad wedi dyddio yng ngoleuni digwyddiadau diweddar a pharhaus, eglurwyd bod y rhagdybiaethau ariannol, ac ati, a oedd yn yr adroddiad, y strategaeth a'r adnewyddu yn cael eu hadolygu o ddydd i ddydd, gyda swyddogion y Cyngor yn ceisio lleihau neu amsugno pwysau costau'n barhaus, yn enwedig y rhai nad oedd yn rhai'n gysylltiedig â chwyddiant. Roedd yna ddealltwriaeth hefyd bod nifer o'r enghreifftiau a nodwyd fel pwysau buddsoddi yn annhebygol iawn o fynd yn eu blaen ac ymddangos ym mhapurau diweddarach y gyllideb.
- Holodd y Cynghorydd Haines am yr adolygiad gweithlu yn yr adroddiad, a'r costau'n gysylltiedig â buddsoddi mewn rolau newydd, a allai effeithio'n negyddol ar feysydd eraill o wasanaethau a buddsoddi'r Cyngor. Eglurwyd bod cydweithwyr ariannol wedi estyn allan i wahanol wasanaethau'r Cyngor er mwyn deall y pwysau oedd arnyn nhw, o ran pwysau ariannol ac o ran darparu gwasanaethau a pha fuddsoddiad oedd ei angen arnynt o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, roedd yn annhebygol y gallai'r ceisiadau hyn am fuddsoddiad a recriwtio ychwanegol i gyd gael eu bodloni o ystyried y terfynau disgwyliedig ar gyllid wrth symud ymlaen.
- Soniodd y Cynghorydd Dr Johnson am y pwysau ariannol sy'n debygol o gael ei roi ar y Cyngor ac Awdurdodau eraill yng Nghymru oherwydd y mesurau posib i'w cyflwyno trwy ddatganiad Cyllideb Hydref Llywodraeth y DU a'r effaith ar wasanaethau'r Cyngor o ran adnoddau ariannol a dynol, h.y. os na fyddai modd buddsoddi mewn swyddi newydd, yna byddai llai o staff i ddarparu gwasanaethau a chymorth i drigolion a chymunedau. Cyfeiriodd y Cynghorydd hefyd at effaith chwyddiant uwch ac argyfyngau amrywiol fel effaith Brexit a'r rhyfel yn Wcráin gan ofyn a allai'r Pwyllgor gael diweddariad pellach ar y gyllideb, y strategaeth ac adnewyddu ym mis Ionawr / Chwefror cyn eu cymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet a'r Cyngor llawn; gan gynnwys unrhyw newidiadau dilynol nad ydynt yn dod o dan yr adroddiad pellach hwn. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd am unrhyw gyfleoedd i 'ail-lunio' gwasanaethau ymhellach, posibiliadau buddsoddi i arbed ac a oedd y Cyngor yn edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y tymor hwy. Mewn ymateb, amlinellwyd y broses ar gyfer ymgynghori, gyda

ffactorau amrywiol, gan gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai a'r broses gosod rhent, a'r angen i fynd ag ymgynghoriad y gyllideb ac ati i'r Cabinet ar 19 Ionawr, 2023, a fyddai yn ei dro yn cael ei gyfeirio at Graffu, gyda'r gyllideb derfynol yn dychwelyd 'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. Fodd bynnag, roedd y Cyngor mewn sefyllfa dda gyda mantolen gymharol gryf, cronfeydd ariannol, a byddai'n ystyried buddsoddi mewn meysydd atal, ymyrraeth gynnar, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn i helpu i liniaru costau yn y blynyddoedd nesaf.

- O ran ymholiad y Cynghorydd Carroll ynghylch newidiadau demograffig yn yr adroddiad a natur anghyson y cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio'n a'r cynnydd mewn disgyblion ysgol o fewn y Fro, cadarnhawyd bod y ddau gynnydd yn amlwg mewn gwybodaeth a modelu cyfredol, gyda chostau sylweddol ar gyfer cefnogi poblogaeth hŷn ac oedolion iau gyda gofal cymdeithasol, yn ogystal â chynnydd mewn disgyblion ysgol sydd angen lleoliadau mewn ysgolion arbennig.
- Dilynodd y Cynghorydd ei gwestiwn uchod drwy roi sylwadau ar wariant y Cyngor ar ymgynghorwyr allanol a'r posibilrwydd o leihau hyn ac fe gwestiynodd y gostyngiad i sero ar gyfer pwysau costau'n deillio o swyddi newydd o 2023/24 i 2024/35, ac ati. Eglurwyd, o ran y pwysau costau / swyddi newydd, fod hyn yn ymwneud â newidiadau i'r gyllideb sylfaenol a'r ffordd y cyflwynwyd hyn, roedd yr arian yn y gyllideb sylfaenol ac yno roedd yn aros.
- Fe wnaeth yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau hefyd egluro'r sefyllfa o ran pwysau costau ac o ran gosod cyllidebau'r Cyngor, gan gyfeirio at y pwysau demograffig, pwysau chwyddiant a'r pwysau eraill a grybwyllir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r dewisiadau anodd o ran buddsoddi a darparu gwasanaethau yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu gwneud a'r angen i Gynghorwyr gael trafodaethau synhwyrol ar sut i gefnogi cymunedau o fewn y Fro wrth symud ymlaen fel rhan o'r ymgynghoriad ar y gyllideb. Ar y cyfan, er gwaethaf yr heriau ariannol roedd y Cyngor yn eu hwynebu, roedd yn dal mewn sefyllfa ariannol gymharol dda wrth symud ymlaen.
- Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd ystyried y sylwadau a roddwyd gan rai o'r Pwyllgorau Craffu eraill ar yr adroddiad, a gafodd eu cymeradwyo a gofynnwyd iddynt gael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.
- Wrth liniaru'r defnydd o ymgynghorwyr allanol, awgrymodd y Cynghorydd Haines y gallai'r Cyngor geisio rhagweld yn well ble roedd anghenion sgiliau er mwyn hyfforddi staff mewnol.
- Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd yr angen i'r Cyngor beidio â bod ofn buddsoddi i recriwtio pobl ifanc a phrentisiaethau er budd mwy hirdymor gwasanaethau'r Cyngor a buddsoddi ynddyn nhw.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau oedd wedi eu cynnwys, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y sylwadau a'r argymhellion canlynol a wnaed gan y Pwyllgor ynglŷn â Strategaeth Ariannol 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i adnewyddu, i'w hystyried:

- Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar, ac yn ymchwilio i, ail-lunio gwasanaethau a buddsoddi er mwyn arbed cyfleoedd.
- Mae'r Cyngor yn adolygu'r defnydd o ymgynghorwyr allanol.
- Mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleoedd recriwtio ar gyfer pobl ifanc a phrentisiaethau.

(2) BOD y Pwyllgor yn cefnogi’r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ac yn gofyn i'r Cabinet ystyried y rhain, sef:

- Mae'r Pwysau Cost a nodir o fewn yr adroddiad, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn gyfreithlon ac wedi’u cymeradwyo'n llawn gan y Pwyllgor.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor dan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddarpariaeth statudol ac felly, ychydig iawn o ddewis sydd gan y Cyngor o ran y gwariant mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn. Felly, mae bodloni anghenion y rheiny mwyaf agored i niwed i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn parhau’n hollbwysig.
- Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau sylweddol a roddir ar y Gwasanaeth Gofal Cartref o ran recriwtio a'r angen i wella cynnig cyflogaeth y Cyngor i weithwyr posib er mwyn gwella recriwtio ac wedi hynny darparu lefel y gofal y mae angen i'r Cyngor ei darparu.

(3) BOD y Pwyllgor yn cefnogi’r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd ac yn gofyn i'r Cabinet ystyried y rhain, sef:

- Ystyried gwasanaethau recriwtio mewnol ar y cyd a chyfleoedd caffael ar y cyd pellach gydag Awdurdodau Lleol eraill, er enghraifft rheoli fflyd ar y cyd a phrynu nwyddau traul.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Er mwyn i’r Cabinet gael gwybod am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel rhan o'i broses o ystyried Strategaeth Ariannol 2023/24 a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi’i adnewyddu.

(2-3) Er mwyn i’r Cabinet gael gwybod am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol fel rhan o'u proses o ystyried Strategaeth Ariannol 2023/24 a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi’i adnewyddu.

463 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI, 2022 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid / Swyddog 151 y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1. Rhoddodd Atodiad 2 grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth wedi ei chymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 30 Medi 2022, gan gynnwys unrhyw

newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad. Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhaglen gymeradwy bresennol o £95.105 miliwn ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflwyno a gofynnwyd am lithriad o £2.524 miliwn. Roedd yr union wariant o ran y sefyllfa hanner ffordd drwy'r flwyddyn ar hyn o bryd yn £18.4m. Roedd yr un pwysau y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad monitro cyfalaf blaenorol hefyd yn berthnasol. Roedd y llithro'n cynnwys meysydd fel Cynllun Gwydro Lefel Uchel Canolfan Hamdden Penarth, oherwydd cymhlethdod y gwaith sydd ei angen.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Ar ymholiad y Cynghorydd Haines ar ddefnyddio cyllid Adran 106 i atgyweirio Canolfan Gymunedol Sain Tathan, byddai gofyn i'r Swyddog Adran 106 ymateb ar hyn, er ei bod yn ymddangos bod hyn wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n gynhwysfawr gan y Swyddog dan sylw.
- Dywedodd y Cynghorydd Franks am gario ymlaen a diffyg datblygiad ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield, yn ogystal â'r angen am fwy o ffocws ar hyn gan y Swyddog Adran 106 sydd newydd ei phenodi ar gyfer y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod fel y nodir isod.

- Goleuadau Stryd ar hyd Frampton Lane - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £5k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad arian A106.
- Pont Llyfrgell Dinas Powys – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £2k i'w hariannu gan gyfraniad refeniw amgylchedd a thai.
- Ardal Chwarae Cosmeston – Trosglwyddo £13k o gynllun Ardal Chwarae Cosmeston i Gynllun Ardal Chwarae Porthceri.
- Gerddi'r Cnap - prosiect dŵr a bioamrywiaeth – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £6k, i'w hariannu gan gyfraniad arian A106.
- Ysgol Sant Curig - Adnewyddu goleuadau - Dwyn ymlaen £56k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

- Adolygu newidiadau i gynlluniau trwyddedau parcio - Dwyn ymlaen £55k i raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Hamdden Penarth - Ffenestri Gwydr Lefel Uchel - Dwyn ymlaen £1,546k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Partneriaeth Adfywio'r Barri - Dwyn ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Dwyn ymlaen £178k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

464 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2022/23 AC ATODLEN DIWEDDARU RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR 2022/23 (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac Amserlen ddiwygiedig y Flaenraglen Waith ar gyfer 2022/23:

- Argymhellion Chwarter 1 yn Tracio mis Ebrill i fis Mehefin 20212 (Atodiad A);
- Argymhellion Chwarter 2yn Tracio mis Gorffennaf i fis Medi 2022 (Atodiad B);
- Argymhellion heb eu cwblhau 2021-22 (Atodiad C);
- Amserlen Blaenraglen Waith Pwyllgorau wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23 (Atodiad D).

Yn dilyn yr adroddiad, gofynnodd yr Is-gadeirydd am gael diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch effaith y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r gwaith parhaus o osod y gyllideb ar Cyswllt Un Fro. Byddai hyn yn cael ei ymchwilio iddo a’i ychwanegu at ddiweddariad chwarterol nesaf y Rhaglen Waith.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i C yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo Amserlen Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd wedi’i hatodi yn Atodiad D yr adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.